



Hysbysiad i Ganolfannau

Canllawiau i ganolfannau ar ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth

Cynhyrchwyd ar ran AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

Gall darllynydd ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth lle mae'n adlewyrchu ffordd arferol a chyfredol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.

Byddai hyn yn digwydd pan nad yw ymgeisydd yn gallu cael mynediad yn annibynnol at unrhyw ran o'r testun a'r symbolau mewn cwestiynau. Er enghraifft, ni all ymgeisydd sydd â nam sylweddol ar y golwg na all ddarllen Braille, gael mynediad at ddiagramau cyffwrddol neu, oherwydd difrifoldeb eu nam, ni all gael mynediad at y papurau safonol wedi'u haddasu a'u mwyhau.

Yn gyffredinol, ni ddylai fod angen darllynydd ar ymgeiswyr ag anawsterau dysgu neu anabledau eraill i ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau ar eu cyfer. Dim ond pwyntio at y symbol a fyddai'r darllynydd.

Ystyr 'dadgodio' yw enwi'r symbol. Nid yw'n golygu esbonio pryd neu sut mae'r symbol yn cael ei ddefnyddio neu ddisgrifio'r symbol.

Enghreifftiau o ddadgodio:

356	mae'r darllynydd yn dweud 'tri chant a phum deg chwech'
CO ₂	mae'r darllynydd yn darllen pob llythyren/rhif
2 ²	mae'r darllynydd yn dweud 'dau wedi'i sgwario'
≤	mae'r darllynydd yn dweud 'llai na neu'n hafal i'
∈	mae'r darllynydd yn dweud 'yn elfen o'
∞	mae'r darllynydd yn dweud 'anfeidredd'
$\sqrt[3]{}$	mae'r darllynydd yn dweud 'trydydd isradd'
θ	mae'r darllynydd yn dweud 'Theta'
∫	mae'r darllynydd yn dweud 'Integryn'

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod darllenydd wedi'u hyfforddi'n drylwyr a'u bod yn gallu dadgodio symbolau a thalfyriadau unedau yn gywir.